## ATODIAD 1 - CYNLLUN DIRPRWYO AELOD ARWEINIOL

### Dirprwyaethau i Aelodau'r Cabinet

Bydd y Cabinet yn gwneud **penderfyniadau allweddol** ar y cyd; bydd **penderfyniadau nad ydynt yn allweddol** sy'n ymwneud â phortffolio penodol aelod o'r Cabinet yn cael ei benderfynu gan yr aelod unigol o'r Cabinet.

Diffiniad o benderfyniad allweddol yw:-

- Y Cyngor yn mynd i wariant neu'n gwneud arbedion sylweddol yn ei gyllideb ar gyfer gwasanaeth neu swyddogaeth sy'n ymwneud â'r penderfyniad a / neu
- Yn cael effaith sylweddol ar gymunedau sy'n byw neu'n gweithio mewn ardal arbennig a/ neu
- Materion yn ymwneud â pholisi corfforaethol neu faterion ar lefel strategol uchel sy'n ymwneud â Swyddogaethau Gweithredol.

Mae portffolios yr Aelod Cabinet i'w gweld yn atodiad 2 (a) i adran 13 uchod. Bydd y rhain yn cynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â materion a fyddai fel arall yn cael eu dirprwyo i Swyddog, ond sydd wedi eu cyfeirio gan y Swyddog hwnnw i'r Aelod o'r Cabinet o dan sylw.

Gall yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros swyddogaeth wrthod gwneud penderfyniad mewn cysylltiad â chyflawni'r swyddogaeth honno ar unrhyw fater penodol, a gallant, yn lle hynny gyfeirio'r mater i'r Cabinet llawn, er enghraifft lle ystyrir bod y mater yn wleidyddol gynhennus neu'n debygol o gael effaith sylweddol ar wasanaethau neu ei bod ym mudd y cyhoedd i wneud hynny.

<u>Cyn</u> gwneud Penderfyniad Dirprwyedig bydd yr aelod Cabinet yn rhoi ystyriaeth i egwyddorion gwneud penderfyniadau a nodir yn Adran 13.2 o'r Cyfansoddiad hwn.

Rhaid i bob Penderfyniad Gweithredol fod yn ysgrifenedig a rhaid i'r Aelod lenwi'r ffurflen a ragnodir ac anfon copi at y [Gwasanaethau Democrataidd] er mwyn i Aelodau'r Cyngor a'r Cyhoedd archwilio'r penderfyniad, yn amodol ar unrhyw eithriad cyfreithlon rhag datgeliad cyhoeddus .

Mae penderfyniadau Aelod Dirprwyedig yn ddarostyngedig i weithdrefnau Galw i Mewn y Cyngor yn unol ag Adran [] y Cyfansoddiad.

Ni all penderfyniadau Aelod Dirprwyedig gael eu gweithredu nes bod y cyfnod Galw i Mewn wedi dod i ben, (5 diwrnod gwaith), oni bai bod y penderfyniad yn bodloni'r amodau brys fel y nodir yn Adran [ ] y Rheolau Galw i Mewn.

<u>Caiff</u> aelodau unigol y Cabinet ymgynghori â'r Cabinet neu aelodau eraill y Cabinet neu Gadeirydd y Pwyllgor perthnasol; neu aelodau ward ar arfer unrhyw bwerau dirprwyedig, neu benderfynu peidio ag arfer pŵer dirprwyedig mewn unrhyw achos penodol.

Pan fo gan aelod unigol o'r Cabinet ddiddordeb personol a rhagfarnllyd fel y'u diffinnir yn y Cod Ymddygiad i Aelodau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad dirprwyedig, ni fydd yr Aelod yn cymryd y penderfyniad, ond bydd yn gofyn i'r Swyddog perthnasol gyfeirio'r mater at y Cabinet i'w benderfynu.